# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 14eg o Dachwedd, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isaf, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br><br>Sianelen Pleming **(SP);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Sara Williams **(SW);** Olwen Roberts **(OR);** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ)**; Ynyr Ellis **(YE);** Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN</u>**<br><br>Osian Hugh Williams **(OHW);** Emlyn Williams **(EW).** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD HYDREF 2023** |
| | **a) <u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br>Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GJLJ gyda OR yn eilio a phawb yn cytuno<br><br>**b) <u>MATERION YN CODI</u>**<br><br>**i. <u>OR - ANGEN BARBIO LONYDD LLITHFAEN</u>**<br>Ail gysylltwyd â Phriffyrdd Dwyfor, nid oedd yr aelodau yn fodlon bod y gwaith wedi ei ddarparu. Y clerc i adrodd ymhellach.<br><br>**ii. <u>MAINC LON CARNGUWCH</u>**<br>Adroddodd JG ei bod wedi ail gysylltu â'r Tîm Tacluso ond nid oedd unrhyw waith wedi ei ddarparu hyd yn hyn. Cynigiodd GJLJ gael golwg arni.<br><br>**iii. <u>OW - CAIS AM DWMPATHAU CYFLYMDER AR GYFER LLITHFAEN</u>**<br>Nid oedd ddiweddariad gan JG<br><br>**iv. <u>OR – ANGEN ARWYDD YN GIÂT GORS LWYD – PLEASE SHUT THE GATE</u>**<br>Cyflwynodd y clerc arwydd oedd wedi ei archebu ac anfoneb<br><br>**v. <u>MAINC PISTYLL –</u>**<br>Adroddodd JG ei bod wedi ail gysylltu â'r Tîm Tacluso ond nid oedd gwaith wedi ei ddarparu hyd yn hyn.<br><br>**vi. <u>MYNWENT LLITHFAEN</u>**<br>Rannodd SP rhan o gofnodion hanesyddol y Cyngor Cymuned ac adroddodd bod y Cyngor wedi mynegi diddordeb i archebu rhan o'r tir islaw Capel Isaf er mwyn ymestyn y fynwent yn 1998. Gwnaed cais am gyllid i Gapel Moria (a gaewyd ar y pryd) a derbyniwyd rhodd o £500 .<br><br>Nid oedd ymdrechion y Cyngor yn llwyddiannus i sicrhau'r tir a thair blynedd wedyn talwyd £597 i gyfreithwyr y mater. I berwyl hyn mae'n ymddangos nad oes unrhyw arian yn parhau o nawdd Capel Moria yng nghyfrif y Cyngor. |

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | LF – Pwynt 6 a) |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Gweler pwynt 3 b) |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **a)** **<u>RHIF CAIS/APP REF: C23/0883/43/LL - GWYNUS, LLITHFAEN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6LY</u>**<br>Cais llawn i drosi stablau presennol i eiddo preswyl ynghyd a chodi estyniad un llawr<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Cefnogol<br><br>**b)** **<u>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD - CYTUNDEB CYFLAWNI</u>**<br>**www.gwynedd.llyw.cymru/gwyneddldp**<br>Dim sylwadau |
| **7.** | **APÊL DIFFIBLWR I BISTYLL** |
| | Adroddodd GJ bod bron i £500 wedi ei gasglu tuag at yr apêl hyd yn hyn.<br>Derbyniwyd argymhellion gan SP i sefydlu Pwyllgor Pentref gan nad oedd y Cyngor Cymuned yn gwneud ceisiadau am nawdd.<br>GJ i ail wneud cais i Elusen Pistyll. Cytunwyd bydd y Cyngor yn fodlon i gadw'r arian yn y cyfrif cadw. Y clerc i'w gofnodi fel cronfa neilltuol.<br>Cytunodd GJ bydd y Pwyllgor yn hysbysebu'r apêl gyda'r wasg. |
| **8.** | **OW - ARWYDD CYFLYMDER AR DROED LON GROES PISTYLL – CAIS I'W AIL LEOLI ER MWYN DIOGELWCH** |
| | Derbyniwyd cytundeb gan y Cyngor Sir i ail leoli'r arwydd mewn safle nad oedd ym mharu a gweledigaeth modurwyr. Nid oedd rhaglen waith wedi ei dderbyn. |
| **9.** | **RHAGLEN WAITH TRAFNIDIAETH A PHRIFFYRDD MIS TACHWEDD, 2023** |
| | Adroddodd y clerc bydd yr Adran Priffyrdd yn atgyweirio cwlfert ger Castell ym Mhistyll yn ystod y mis. |
| **10.** | **SAFLE BWS LLITHFAEN** |
| | Erbyn hyn roedd yr adran Trafnidiaeth wedi gohebu yn adrodd eu bod hwythau hefyd wedi derbyn cais i ail leoli'r safle bws gan y trigolion. Y clerc i adrodd argymhellion yr aelodau i'w ail leoli ger gardd rhif 1 Awelfryn. |
| **11.** | **CYTUNDEB CYFLOG CENEDLAETHOL 2023/24** |
| | Nodwyd bod chwyddiant I Raddfa Gyflog y Clerc wedi ei gytuno gan NALC o 1af o Ebrill 2023 ymlaen sef:<br>Pwynt 11 yn codi o £12.50 I £13.50. Ni fydd y clerc yn symud i bwynt 12 tan Ebrill 2024. Cynigiodd OR I'r Cyngor dderbyn y chwyddiant, eiliodd YE. |

| | |
|---|---|
| **12.** | **DYDDIADAU HYFFORDDIANT TACHWEDD & RHAGFYR 2023** |
| | Derbyniwyd y dymuniadau canlynol:<br><br>**JG** 23/11/2023 Dydd Iau Y Cynghorydd - Modiwl 2 6.30-8.00pm<br>**SP** 2911/2023 Dydd Mercher Cyllid Llywodraeth Leol - Modiwl 6 yn Gymraeg 6.30-8.00pm<br><br>Cytunodd JG dalu am ei hyfforddiant gan nad yw yn aelod etholedig i'r Cyngor Cymuned<br>Y clerc i weithredu. |
| **13.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Adroddodd SP bod llawer o ddiddordeb wedi ei dderbyn i gynnig dyfynbrisiau i baratoi'r gwaith. Penderfynwyd ymestyn y dyddiad derbyn am wythnos arall. Bydd Pwyllgor y Canolfan yn cyfarfod yr wythnos nesaf.<br>Y clerc i wneud ymholiadau am gopi caled o'r brydles. |
| **14.** | **MAES PARCIO'R EIFL - TRACK I FRYN FFYNNON GWEITHRED AR FFURF DRAFFT** |
| | Derbyniwyd cytundeb ar ffurf drafft i'r aelodau ei gymeradwyo.<br>Y clerc i gadarnhau cywirdeb y weithred gyda'r Cyfreithiwr. |
| **15.** | **CYNNIG GAN GETHIN JONES I GEISIO NEWID RHEOLAU TAI TEG** |
| | Adroddodd JG bod y mater yn parhau ar y gweill. |
| **16.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a)** **<u>OS - CAIS I NEWID DEFNYDD LÔN PENRHOS, PISTYLL I FOD YN LLWYBR CYHOEDDUS</u>**<br>Cynigiodd WJ gefnogi cais OH, roedd hefyd yn argymell sefydlu arwydd ar waelod Lôn Gladus i gyfeiriad Tŷ Mynydd a Mynydd Nefyn.<br><br>**b)** **<u>OS – SAFLE BWS PISTYLL</u>**<br>Twll rhyw 5 llath o'r safle bws – Y clerc i wneud cais i'w atgyweirio i'r Cyngor Sir<br><br>**c)** **<u>SP – DWR YN RHEDEG I'R PENTREF</u>**<br>Rhediad dwr wedi newid ers ail wneud y ffordd ar dwr bellach ddim yn rhedeg i'r grating<br>SP am yrru fideo i'r clerc ei rannu gyda'r Cyngor Sir<br><br>**d)** **<u>SW – GORDYFIANT</u>**<br>Ger Tŷ Llwyd - Chwyn yn Tyfu o'r wal a phridd wedi ei adael ar y lon<br>Chwyn o flaen Ganolfan<br>Gordyfiant ar lwyn cae ger Awelfryn<br>Gordyfiant o'r siop i arwydd 20<br>Gordyfiant rhwng Gwelfor ac Arosfa, Llithfaen<br>Y clerc i yrru'r rhestr i JG |
| **17.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** **<u>CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL AHNE LLŶN</u>**<br>22 o Dachwedd – 4pm ar Zoom – SP yn mynychu<br><br>**b)** **<u>ADOLYGIAD O IECHYD DEMOCRATAIDD YN Y SECTOR CYNGHORAU CYMUNED A THREF – SYLWADAU ERBYN 27 TACHWEDD 2023</u>**<br><br>**c)** **<u>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD - CYTUNDEB CYFLAWNI</u>** |

| | |
|---|---|
| | d) **DIWEDDARIAD GAN BWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYS AR Y GWASANAETH CASGLU A THROSGLWYDDO MEDDYGOL BRYS**<br><br>e) **YN CYFLWYNO TREFI SMART CYMRU**<br><br>f) **GWAHODDIAD: GWYRDDNI PEN LLŶN**<br><br>g) **YMGYNGHORIAD STRATEGAETH DIOGELWCH FFYRDD LLYWODRAETH CYMRU** |
| **18.** | **CYLLID** |

**a) CYSONIAD 2023 / 2024**

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2023 | | £ 9,614.09 |
| + | CYFRIF CADW MAWRTH 2023 | | £ 2,671.02 |
| - | LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC | | £ - |
| + | GWARGED 2023 / 2024 | | £ 7,695.30 |
| = | CRONFA'R CYNGOR | = | **£ 19,980.41** |

**b) DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Hydref i 30 o Hydref 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £ 18,193.86 |
| Derbyniadau | + | |
| Gwariant | - | £ 280.80 |
| Balans Cau | = | **£ 17,913.06** |

**CYFRIF CADW - 07 Fedi i 6ef o Hydref 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £ 2,690.99 |
| Derbyniadau | + | |
| Gwariant | - | |
| Balans Cau | = | **£ 2,690.99** |
| | = | **£ 20,604.05** |

**c) LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Gillian Thomas | 201290 | £ 443.64 |
| - | Danny Osborn | 201291 | £ 180.00 |
| | | = | **£ 623.64** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 19,980.41** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR** | - | **£ 251.90** |
| = | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** | = | **£ 19,728.51** |

| | |
|---|---|
| **19.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 12fed o Ragfyr, Capel Isaf, Llithfaen i gychwyn am 7 y<br>SW ac YE yn ymestyn ymddiheuriadau buan |